HORIZON
PŴER NIWCLEAR

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa

Helpwch ni i siapio ein cynigion

Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn, a gynhyrchwyd gan Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Horizon), yn cydymffurfio ag Adran 47(6) Deddf Cynllunio 2008 ac fe'i cynhyrchwyd yn dilyn ymgynghoriad â Chyngor Sir Ynys Môn ym mis Medi 2011.

Beth yw Datganiad o Ymgynghori Cymunedol?

Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SOCC) hwn yn egluro sut y bydd Horizon yn ymgynghori'n ffurfiol â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir yn Wylfa (y gymuned leol) lle mae'n gobeithio datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae hyn yn ychwanegol at y gweithgareddau ymgysylltu llai ffurfiol a gynhaliwyd hyd yma ac a fydd yn parhau, gan gynnwys cymorthfeydd galw-i-mewn, digwyddiadau a chyfarfodydd lleol.

Mae eich sylwadau ar y cynigion yn bwysig i ni a chânt eu hystyried wrth i ni lunio a pharatoi ein cais ar gyfer y prif ganiatâd cynllunio – y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) – a gyflwynir i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC).

Rydym am i'n hymgynghoriad fod yn un gonest, ystyrlon, cynhwysol ac eglur i bawb.

Mae 'Wylfa – Dogfen Gefndir yr Ymgynghoriad Cymunedol' yn cynnwys manylion pellach am ein hymgynghoriad ac mae ar gael yn **www.horizonnuclearpower.com** neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â ni. Cafodd y dogfennau eu cynhyrchu yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol â Chyngor Sir Ynys Môn ac yn dilyn trafodaethau â Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ar beth mae Horizon yn ymgynghori?

Mae Horizon yn awyddus i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ar dir wrth ymyl yr Orsaf bŵer bresennol yn Wylfa ym Môn. Disgwylir y byddai'r orsaf bŵer newydd yn cynhyrchu tua 3,300 megawatt o drydan carbon isel – digon i gyflenwi tua phum miliwn o gartrefi.

Gwneir y cais am DCO ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear gan gynnwys adeiladau'r adweithydd, y neuaddau tyrbin, staciau awyru, cyfleusterau storio gweddillion tanwydd, adeiladau gweinyddu a seilwaith dŵr oeri. Bydd yr ymgynghoriad yn gwbl eglur ynghylch pa elfennau o'r cynigion yr ydym am glywed barn y gymuned leol arnynt, a'r rhai nad ydym yn gofyn am sylwadau arnynt (er enghraifft, y dewis o dechnoleg ar gyfer yr adweithydd) ac os felly, pam.

Bydd angen rhywfaint o ddatblygiadau pellach hefyd nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y DCO, ac mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys llety oddi ar y safle ar gyfer y gweithwyr, gwelliannau i ffyrdd, parcio a theithio, canolfannau crynhoi Cerbydau Nwyddau Trwm a chyfleusterau dadlwytho morol. Mae'r elfennau ychwanegol hyn o'r prosiect yn cael eu galw'n Ddatblygiadau Cysylltiedig. Yng Nghymru nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ar Ddatblygiadau Cysylltiedig gan fod prosesau cynllunio gwahanol yn weithredol. Mae hyn yn golygu bod ceisiadau'n cael eu hystyried gan benderfynwyr gwahanol, er enghraifft Cyngor Sir Ynys Môn. Byddwn, fodd bynnag, yn cynnwys y Datblygiadau Cysylltiedig yn ein prif ymgynghoriad, er mwyn eu gosod yng nghyd-destun y prosiect llawn.

Beth fydd effeithiau tebygol y datblygiad?

Byddai'r prosiect yn arwain at fuddsoddiad a buddiannau sylweddol i'r ardal yn sgil creu tua 5,000 o swyddi yn ystod y gwaith adeiladu ac 800 o swyddi parhaol i redeg yr orsaf.

Byddai'r orsaf bŵer newydd yn cynhyrchu cyflenwad dibynadwy o drydan carbon isel a fyddai'n helpu'r Llywodraeth i gyflawni ei thargedau newid yn yr hinsawdd ac amcanion ei pholisi ynni.

Fodd bynnag, byddai hwn yn brosiect adeiladu mawr hefyd. Byddai'r gwaith adeiladu ar y safle'n digwydd dros nifer o flynyddoedd a byddai'r orsaf bŵer newydd yn nodweddd amlwg o'r dirwedd yn lleol ar ôl iddi gael ei hadeiladu. Bydd y deunyddiau a ddarperir gennym fel rhan o'r ymgynghoriad felly'n amlinellu ac yn gwahodd sylwadau ar ein cynigion yn y cyfnod cyn gwneud y cais am y DCO. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am effeithiau posibl y cynigion (gan gynnwys effeithiau cronnus), megis traffig a thrafnidiaeth, sŵn, llifogydd, archeoleg, ecoleg a'r effaith weledol, yn ogystal â'r effeithiau ar iechyd a diwylliant. Bydd cynigion yn cael eu cynnwys ar ffyrdd o leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl er enghraifft, tirlunio, defnydd o'r tir yn y dyfodol a chynigion lliniarol i leihau effeithiau ar gynefinoedd naturiol, ymhlith pethau eraill.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cael ei gyfrif fel datblygiad Asesu Effeithiau Amgylcheddol i ddibenion Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Mae hyn yn golygu y bydd Datganiad Amgylcheddol yn cael ei baratoi i gyd-fynd â'r cais am DCO. Byddwn yn ymgynghori hefyd ar Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEI) yn ystod pob un o brif gamau'r ymgynghoriad a amlinellir isod. Yn ystod pob cam o'r broses bydd y dogfennau hyn yn amlinellu ein dealltwriaeth o effeithiau amgylcheddol posibl y cynigion. Bydd dogfennau cryno annhechnegol ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Pam mae Horizon yn ymgynghori?

Mae Horizon yn cydnabod rôl bwysig yr ymgynghoriad i sicrhau bod cymunedau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am sut mae ein cynigion yn datblygu, yn ogystal â gwrando ar eu barn er mwyn siapio ein cynigion.

O dan system gynllunio'r DU ar hyn o bryd, byddai'r prif gais am orsaf bŵer newydd yn cael ei gyflwyno i'r IPC, sef y corff annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Bwys Cenedlaethol (NSIP). Fodd bynnag dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 a wnaethpwyd yn ddeddf yn ddiweddar, mae'r rôl gwneud penderfyniadau ar gynlluniau NSIP wedi cael ei throsglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar argymhellion y tîm seilwaith mawr yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio (a fydd yn disodli'r IPC). Disgwylir y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon o fis Ebrill 2012 ymlaen. Disgwylir y bydd y gofynion ymgynghori cyn ymgeisio presennol yn aros yr un fath yn bennaf. Mae gwybodaeth am yr IPC a'i broesau ar gael ar ei wefan: **http://infrastructure.independent.gov.uk.**

Bydd yr IPC yn ystyried a yw ein prosesau ymgynghori'n ddigonol cyn penderfynu a yw am dderbyn ein cais. Ar ôl iddo dderbyn cais, bydd yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriadau, a sut y mae hyn wedi helpu i ddylanwadu ar ddatblygiad y prosiect, yn cael ei ystyried gan yr IPC.

Rhaid i'r IPC ystyried cais ar sail y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) perthnasol, sef y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (EN-1) yn yr achos hwn, sy'n penderfynu a oes angen gorsafoedd pŵer niwclear newydd a'r NPS Niwclear (EN-6) a oedd yn enwi safle'r Wylfa fel un posibl ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd.

Cafodd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Senedd fis Gorffennaf 2011. Bydd ein hymgynghoriad yn cynnwys ein cynigion yn hytrach na'r polisi a amlinellir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Gellir gweld y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar-lein yn: **www.decc.gov.uk/en/content/cms/meeting_energy/consents_planning/nps_en_infra/nps_en_infra.aspx**

Pa bryd fydd Horizon yn ymgynghori?

Mae'n bwysig bod yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle gwirioneddol i bobl i helpu i ddylanwadu ar y cynigion. Er mwyn sicrhau hyn, bydd Horizon yn cynnal o leiaf ddau gam o ymgynghoriadau gyda phob un yn para tua 10 wythnos:

Cam Un (yn gynnar yn 2012)

Bydd hwn yn gyfle i bobl weld ac i wneud sylwadau ar ein cynigion cynnar ar gyfer y prosiect, gan gynnwys y datblygiadau cysylltiedig (dyluniad yr orsaf bŵer, llety'r gweithwyr a gwelliannau i ffyrdd), gan gynnwys manylion am yr opsiynau a ystyriwyd, neu sy'n cael eu hystyried. Bydd hefyd yn cynnwys PEI fydd ar gael adeg yr ymgynghoriad, a fydd yn diweddaru ein hastudiaethau amgylcheddol parhaus.

Cam Dau (yn gynnar yn 2013)

Bydd hwn yn egluro sut y cafodd yr adborth a gafwyd hyd yma ei ystyried. Ar ben hynny, byddwn yn rhoi ac yn gwahodd barn am gynigion mwy manwl ar gyfer y safle a PEI pellach (manylach na Cham Un). Bydd hyn yn disgrifio canlyniadau a deilliannau datblygiad yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol hyd yma.

Gall Horizon gynnal rowndiau ymgynghori byrrach ychwanegol ar Ddatblygiadau Cysylltiedig neu ar agweddau penodol eraill ar y prosiect pan fydd yr wybodaeth ar gael neu mewn ymateb i ymatebion a gafwyd i ymgynghoriadau cynharach.

Bydd y dyddiadau dechrau a gorffen, lleoliadau'r digwyddiadau a manylion ar ble i gael gafael ar wybodaeth bellach a sut y gallwch ymateb yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol ac ar ein gwefan mewn da bryd.

Pwy mae Horizon yn ymgynghori â hwy?

Bydd yr ymgynghoriad yn agored i bwy bynnag sy'n dymuno ymateb, beth bynnag yw eu hoed neu eu lleoliad. Bydd yr holl ohebiaeth leol mewn iaith eglur, annhechnegol a bydd yn ddwyieithog. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn ein digwyddiadau ymgynghori, megis arddangosfeydd cyhoeddus.

Bydd angen tir ar Horizon y tu allan i'r ardal hon er mwyn ei ddefnyddio dros dro yn ystod y cyfnod adeiladau ac ar gyfer gwaith tirweddu a lliniaru'r effaith ar yr amgylchedd yn y dyfodol. Mae Horizon yn siarad â thirfeddianwyr lleol perthnasol a chymdogion y safle ynghylch y gofynion tir hyn, sydd yn dal i gael eu hystyried. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael am hyn yn ystod y broses ymgynghori.



Sut fydd Horizon yn ymgynghori, ac ym mhle?

Yn ystod pob cam o'r ymgynghoriad, byddwn yn:

- cynhyrchu dogfen gryno o'r ymgynghoriad drwy roi gwybodaeth am y prosiect, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau a gweithgareddau pwysig;
- rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy gyhoeddi cylchlythyrau, hysbysebion yn y wasg, posteri a thrwy e-bostio pawb sydd ar gronfa ddata Wylfa;
- datblygu gwefan gyda gwybodaeth am y prosiect a holiadur ar-lein;
- rhoi cyfeiriad rhadbost ar gyfer ymateb drwy'r post;
- cynnal cyfres o arddangosfeydd ledled yr ardal leol;
- hysbysu'r cyfryngau lleol o'r datblygiadau;
- ysgrifennu'n uniongyrchol at gynrychiolwyr y gymuned, gan gynnwys Aelodau Seneddol a chynghorwyr;
- cynnig cyflwyniadau a gwybodaeth yn uniongyrchol i Gynghorau Cymuned a chyflogwyr lleol pwysig; a
- chysylltu â grwpiau cymunedol i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor gynhwysol â phosibl.

Er mwyn ceisio sicrhau bod ein gweithgareddau ymgynghori mor effeithiol â phosibl, rydym wedi nodi'r ardaloedd ar y map uchod y bydd hyn yn debygol o effeithio fwyaf arnynt. Bydd gweithgareddau ymgynghori, megis digwyddiadau cyhoeddus, yn cael eu cynnal ledled Gogledd Orllewin Cymru ond canolbwyntir yn bennaf ar barth A, a'r rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn defnyddio'r tir y gall hyn effeithio arno. Byddwn hefyd yn teilwra'r ymgynghoriad i'r cymunedau amrywiol ar Ynys Môn. Bydd y gweithgareddau yn y parthau allanol (B & C) yn debyg ond byddant yn llai dwys, gan ganolbwyntio ar ardaloedd poblog.

Beth fydd yn digwydd i'r ymatebion?

Ar ôl pob cam o'r ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi'r prif themâu a godwyd gan yr ymatebwyr ar ein gwefan. Byddwn yn defnyddio ymatebion perthnasol i'n helpu i feddwl am unrhyw newidiadau sydd angen i ni eu gwneud i'n cynlluniau.

Yn ail gam yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cryno ar Gam Un yr Ymgynghoriad a fydd yn amlinellu'r ymatebion perthnasol a gafwyd a sut maent wedi helpu i ffurfio ein cynlluniau diwygiedig ar gyfer Cam Dau.

Byddwn yn adrodd ar holl brosesau ymgynghori a chanfyddiadau Cam Un a Cham Dau mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a gaiff ei gyflwyno i'r IPC ar yr un pryd â'n cais am DCO. Bydd yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad yn rhoi gwybodaeth am ein proses ymgynghori â'r gymuned leol ochr yn ochr â gofynion ymgynghori eraill, a bydd yn egluro sut y cafodd ymatebion perthnasol eu hystyried wrth ffurfio'r cynlluniau terfynol ar gyfer y datblygiad. Bydd yr IPC yn ystyried yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad yn ystod y broses archwilio.

Sut y gallwch gael gafael ar wybodaeth?

Bydd deunyddiau'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan yn: **www.horizonnuclearpower.com.**

Bydd copïau o'r deunyddiau ar gael yn y mannau canlynol:

- Swyddfeydd y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW
- lleoliadau megis prif swyddfeydd eraill y cyngor a llyfgrelloedd fel y nodir yn **Wylfa – Dogfen Gefndir yr Ymgynghoriad Cymunedol**
- neu drwy gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol.

Sut y gallwch chi gael mwy o wybodaeth?

Gallwch gysylltu â Horizon unrhyw bryd

- drwy anfon e-bost at: **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**
- Drwy ffonio: **0800 954 9516**
- Gwefan: **www.horizonnuclearpower.com**
- Cyfeiriad Rhadbost: **FREEPOST HORIZON NUCLEAR POWER CONSULTATION.**

Ymgynghoriadau eraill

Cyn pob cam ymgynghori byddwn yn gofyn cyngor Cyngor Sir Ynys Môn ac yn ymdrechu i sicrhau bod manylion ar gael yn ein dogfennau cryno ac ar ein gwefan am unrhyw ymgynghoriadau pwysig eraill sy'n cael eu cynnal yn yr ardal ar yr un pryd â'n hymgynghoriad.

Rydym yn rhagweld y bydd ein hymgynghoriadau'n gorgyffwrdd ag ymgynghoriad(au) y National Grid ar gais am uwchraddio rhwydwaith Gogledd Cymru. Bydd hyn yn angenrheidiol er mwy cysylltu'r orsaf bŵer newydd y mae Horizon am ei datblygu yn yr Wylfa â'r system drawsyrru trydan.